Grosvenor Gardens House, 35 – 37 Grosvenor Gardens,
Llundain/London SW1W 0BS

Ffôn: +44 (0) 207 233 9887
Ffacs: +44 (0) 207 233 9869
info@ecpat.org.uk
www.ecpat.org.uk

amddiffyn plant ym mhob man

Annwyl

Derbyniodd ECPAT UK gyllid gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru i ystyried pa dystiolaeth sydd fod fasnachu mewn plant yng Nghymru. Mae gan ECPAT UK enw da yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ei ymchwil a gwaith lobio ar y mater hwn[1].

Mae masnachu mewn plant yn ffenomen cymharol ddiweddar yn y Deyrnas Unedig. Mae'n cynnwys plant y deuir â hwy i'r Deyrnas Unedig a'u symud o amgylch i gael eu hecsbloetio. Gall yr ecsbloetiad hwn fod ar ffurf ecsbloetiad rhywiol, caethiwed ddomestig, llafur a orfodir, twyll budd-daliadau, mabwysiadu anghyfreithlon ac arferion cyffelyb i gaethwasiaeth[2]. Gall effeithio ar blant o wledydd yr Undeb Ewropeaidd, plant sy'n hawlio lloches yn y Deyrnas Unedig a hefyd ddinasyddion y Deyrnas Unedig. Dengys tystiolaeth y bydd pobl sy'n masnachu mewn plant yn anelu i dargedu ardaloedd lle credant na chaiff eu gweithgareddau eu canfod. Felly gwelsom symud ymaith o ddod â phlant i mewn drwy Heathrow a Gatwick i fynediad drwy borthladdoedd a meysydd awyr rhanbarthol [3].

Nid yw'n rhwydd dynodi masnachu mewn plant ac weithiau nid oes gennym unrhyw sail heblaw amheuon. Mae'r darn hwn o ymchwil yn cydnabod fod y dystiolaeth ar gyfer masnachu mewn plant yn aml yn ddarniog ac efallai nad yw ymarferwyr yn sicr os yw'r plant y maent yn gweithio â hwy wedi eu masnachu ai peidio. I gynorthwyo meddwl am achosion posibl, amgaeaf restr o 5 sefyllfa gyffredin a all ddangos fod plentyn wedi ei fasnachu. Ar gyfer dibenion yr ymchwil, mae plentyn yn unrhyw un dan 18 mlwydd oed.

Cesglir y data ar gyfer yr ymchwil drwy gyfweliad neu drwy holiadur. Amgaeaf holiadur a byddwn yn ddiolchgar pe medrech ei lenwi yng nghyswllt unrhyw blentyn y bu gennych amheuon amdano. Os hoffech gael eich cyfweld, byddwn yn ddiolchgar pe byddech yn cysylltu â fi yn uniongyrchol a medrir trafod hyn.

[1] Gweler tudalen adnoddau www.ecpat.uk am restr o'n cyhoeddiadau
[2] Protocol Palermo y Cenhedloedd Unedig 2000
[3] CEOP (2007) A Scoping Report Into Child Trafficking in the UK

Caiff unrhyw wybodaeth a roddwch ei thrin yn gyfrinachol a gwneir yr holl ddata yn ddienw. Nid ydym angen manylion os nad ydych chi'n dewis eu rhoi.

Gobeithiaf y bydd gennych amser i lenwi holiadur (un fesul plentyn) a hoffwn ddiolch i chi ymlaen llaw am eich mewnbwn. Dylid dychwelyd pob cwestiwn ataf i erbyn diwedd mis Medi 2008 os gwelwch yn dda.

Byddai croeso i chi gysylltu â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau.

Yn gywir iawn,

Emma Kelly
Ymchwilydd Arweiniol